COVID !

CYNGOR CYMUNED
LLANBADRIG
COMMUNITY COUNCIL

Annwyl Drigolion,

Ar ran holl aelodau Cyngor Cymuned Llanbadrig fe hoffwn ddweud DIOLCH YN FAWR i holl drigolion y plwyf. Mae Covid 19 wedi cael effaith mawr arnom i gyd ond mae y ffaith bod y gymuned yma wedi dod at ei gilydd i helpu y naill a'r llall, ac wedi dilyn y canllawiau, wedi llwyddo i gadw pawb yn ddiogel hyd yma. Mae yna nifer o weithredoedd unigol o garedigrwydd wedi cael eu gwneud i gymdogion a ffrindiau ac mae hyn yn dangos pa mor ofalus yw ein cymuned. Ond yn anffodus, fel yr ydym wedi sylweddoli yn ystod y dyddiau dwytha, nid yw hyn ar ben o bell ffordd ac mi fydd yn rhaid parhau i fod yn wyliadwrus.

Fe hoffem hefyd ddweud DIOLCH YN FAWR i'r tîm o wirfoddolwyr sydd wedi rhoi yn hael o'u hamser i roi cymorth i'r rhai mwyaf bregus. Yn ystod rhai wythnosau gwnaethant dros 100 o 'Weithredoedd o Garedigrwydd'. Diolch i pob un ohonoch am eich ymroddiad gwerthfawr.

Yr ydym hefyd yn DIOLCH YN FAWR i'r gweithwyr allweddol i gyd sydd wedi cario ymlaen gyda eu dylwetswyddau yn ystod yr amser anodd hwn. Mae yn golygu bod ein bywyd pob dydd ni wedi gallu cario ymlaen heb ormod o rwystr. Yr ydym yn sylweddoli nad oedd hyn yn hawdd ac yr ydym yn edmygu eich ymrwymiad.

Wrth i ni edrych ymlaen yn obeithiol am amser gwell i ddod yn y dyfodol. fe ddylai y gymuned ymfalchio am ei bod mor ofalgar a chyfeillgar. Fel cynghorwyr lleol yr ydym yn teimlo yn ffodus ein bod yn cynrychioli y gymuned hon.

CADWCH YN DDIOGEL. CYMERWCH OFAL. BYDDWCH YN WYLIADWRUS.

Yn gywir,

Derek Owen (Cadeirydd)
Carys M Davies (Is-gadeiryd

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council,
Canolfan Treftadaeth Cemaes, 36 Stryd Fawr, Cemaes, Ynys Mon LL670HL
e-bost / e-mail: llanbadrig@live.co.uk

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council,
Canolfan Treftadaeth Cemaes, 36 Stryd Fawr, Cemaes, Ynys Mon LL670HL
e-bost / e-mail: llanbadrig@live.co.uk